

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr a gynhaliwyd **ddydd Gwener, 12 Gorffennaf 2019** am 9.00am yn 1887, Prifysgol Glyndŵr, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam LL11 2AW.

**Presennol**

Mr Jim Barclay  
 Mr Paul Barlow  
 Ms Ebony Banks  
 Yr Athro Maria Hinfelaar  
 Mr Colin Heron  
 Mrs Celia Jenkins  
 Yr Athro Sandra Jowett  
 Dr Jayne Mitchell  
 Mrs Judy Owen  
 Ms Maxine Penlington (Cadeirydd)  
 Mr Askar Sheibani  
 Mr David Sprake  
 Mr David Subacchi  
 Mrs Caroline Whiteley

**Swyddogion:**

Mr David Elcock (*Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid*)  
 Mrs Lynda Powell (*Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau*)  
 Yr Athro Claire Taylor (*Dirprwy Is-ganghellor*)

**Ymddiheuriadau:**

Ms Laura Gough  
 Mr Kieran Irwin  
 Mr Barrie Jones  
 Mr Paul McGrady  
 Mr Pete Gibbs (*Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol*)  
 Dr Aulay Mackenzie (*PVC Partnerships*)  
 Mrs Val Butterworth (*Clerc y Bwrdd*)

**Yn bresennol:**

Mrs Joy Morton (*Cyfreithiwr y Brifysgol*) (*Dirprwy Clerc*)  
 Angus Hamill-Stewart (*Llywydd yr Undeb Myfyrwyr ar fin ymddeol*)

<b>18.99</b>	<b>Croeso ac ymddiheuriadau</b>	
	<p>Roedd y Cadeirydd wedi cymeradwyo Ms Joy Morton fel Dirprwy Clerc ar gyfer y cyfarfod hwn, yn absenoldeb Clerc y Bwrdd, yn unol â rheol sefydlog 32, a diolchodd iddi am gytuno i ymgymryd â'r rôl.</p> <p>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.</p> <p>Croesawyd Ms Banks i'w chyfarfod Bwrdd cyntaf.</p>	
<b>18.100</b>	<b>Datgan buddiannau</b>	
	Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau gydag unrhyw eitem ar yr agenda.	
<b>18.101</b>	<b>Cofnodion</b>	
	<b>Derbyniwyd:</b>	

	<p>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2019.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2019 yn gofnod gwir a chywir o drafodion y cyfarfod.</p>	
<b>18.102</b>	<b>Materion yn codi</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad materion yn codi a ddarparwyd gan y Clerc.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>18.103</b>	<b>Gweithredoedd y Cadeirydd</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad ar weithredu gan y Cadeirydd rhwng cyfarfodydd yng nghyswllt newid yn amodau'r cyllid Rhaglen Fuddsoddi mewn Targedu Adfywio (TRIP) a ddyfarnwyd i Wyddoniaeth Gogledd Cymru.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Roedd y newid yn ymwneud ag adfachu potensial y cyllid £750k trwy'r Rhaglen Fuddsoddi mewn Targedu Adfywio petai Tŷ Henblas yn cael ei werthu cyn pen 10 mlynedd o ddyddiad ei brynu; a gofyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i roi prydiant tir cyfredol ar Dŷ Henblas i'r perwyl hwn.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad a CHADARNHAU gweithred y Cadeirydd.</p>	
<b>18.104</b>	<b>Adroddiad yr Is-ganghellor</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> (i) Adroddiad gan yr Is-ganghellor. (ii) Diweddariad ynghylch cais cynllunio Campws 2025 (a gyflwynwyd).</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd yr Is-ganghellor yr adroddiad, gan hysbysu'r Bwrdd y cafodd y ceisiadau cynllunio eu hystyried yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 1 Gorffennaf 2019. Er gwaethaf y swyddog cynllunio'n argymhell cymeradwyo'r holl geisiadau cynllunio, gwrthododd y Pwyllgor Cynllunio'r ceisiadau ar gyfer safleoedd Ffordd y Deon a Gatewen. Dywedodd yr Is-ganghellor bod cyfarfod Campws 2025 i'w gynnal ddydd Mercher, 17 Gorffennaf 2019, i ddechrau'r broses apêl o ran y ddau gais cynllunio a wrthodwyd.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad a CHADARNHAU'R penderfyniad bod y Brifysgol yn apelio'n erbyn y penderfyniadau cynllunio.</p>	
<b>18.105</b>	<b>Yr Undeb Myfyrwyr</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad gan Lywydd yr Undeb Myfyrwyr.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd Is-lywydd yr Undeb Myfyrwyr ei hun a chyflwynodd yr adroddiad ar ran y Cadeirydd. Tynnodd sylw at ganlyniad llwyddiannus y cais Ansawdd Undeb Myfyrwyr. Gwnaeth yr aelodau longyfarch yr Undeb Myfyrwyr, yn enwedig y Llywydd ar fin ymddeol, am y cyflawniad hwn.</p>	

	<p>Diolchodd y Cadeirydd i Angus Hamill-Stewart am ei gyfraniad i'r Undeb Myfyrwyr a'r Bwrdd Llywodraethwyr.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>18.106</b>	<b>Adroddiad Rheolaeth Ariannol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad rheolaeth ariannol hyd at 31 Mai 2019.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad, gan nodi mai'r alldro a ragfynegydd oedd £421k yn erbyn targed cyllideb gynlluniedig o £552k. Roedd y perfformiad yn erbyn yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ystod y flwyddyn hyd yma yn gadarnhaol, ynghyd â'r llif arian. Roedd y Brifysgol yn cydymffurfio gyda'r holl gyfamodau'n gysylltiedig â'i benthyciad cyfredol.</p> <p>Cyfeiriwyd at ddarparu credydau rhan amser yn 2018/19 gan gydnabod y byddai unrhyw adfachu cyllid rhan amser gan CCAUC (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) yn cael effaith andwyol ar y sefyllfa warged. Esboniwyd y cefndir i'r proffil cyllido a chyflawni dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan arwain at greu darpariaeth £200k ar ddiwedd 2017/18 pan oedd yr holl gredydau a oedd yn ofynnol wedi'u cyflawni. Roedd y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid wedi gofyn i'r aelod gweithredol yn gyfrifol am gyflawni credydau rhan amser i ddod i'w cyfarfod nesaf i roi diweddariad ar y cynllun gweithredu i gyflawni'r credydau gofynnol yn ystod 2019/20.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	<b>AM</b>
<b>18.107</b>	<b>Cyllideb Ddrafft 2019/20</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Cyllideb ddrafft Grŵp y Brifysgol 2019/20.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid sylw at gefndir yr heriau yng nghyllideb 2018/19 yn cynnwys y cynnydd costau a ragwelwyd yn gysylltiedig â'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a fyddai'n cynyddu o 16.48% i 23.68% ar gyfer 2019/20. Cyflwynwyd nifer o fentrau arbed costau i gynhyrchu cyllideb 2019/20 a fyddai'n cyflawni gwaged uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol. Roedd y gyllideb wedi'i seilio ar 1068 o fyfyrwyr is-raddedig amser llawn newydd a 1365 o fyfyrwyr yn dychwelyd. Roedd partneriaethau cydweithredol a darpariaeth addysg trawsgenedlaethol yn cyfrannu at lefelau incwm uwch ac roedd yr arallgyfeirio yma'n lleddfu'r niferoedd myfyrwyr israddedig cartref/Undeb Ewropeaidd sy'n unfath i raddau helaeth, fel yr oedd y twf cynyddol mewn darpariaeth ôl-raddedig a gradd brentisiaeth. Roedd cynnydd cyflog 2% wedi'i ffactora yn y gyllideb wrth ddisgwyl am gadarnhad y cynnydd cyflog terfynol, sy'n 1.8% ar hyn o bryd.</p> <p>Byddai'r lefel gwaged uwch cynlluniedig yn cynorthwyo i greu lefelau arian parod uwch a gynhyrchwyd ar ddiwedd y flwyddyn o tua £1.1m ar ôl ad-dalu £1m i'r AIB. Mae gwelliant 0.5% mewn cyfraddau cadw wedi'i ffactora i mewn i hyn hefyd.</p> <p>Roedd yr is-gwmnïau â chyllidebau a fyddai'n eu rhoi mewn sefyllfa warged, gyda chynnydd yn nifer yr archebion yn llyfr archebion Glyndŵr Innovations Ltd.</p>	

	<p>Roedd Grant Bloc yr Undeb Myfyrwyr wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar £360,500 ar gyfer 2019/20. Roedd hyn yn agos at opsiwn 1 yr Undeb Myfyrwyr, o'r tri opsiwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Strategaeth a Chyllid yn Chwefror 2019.</p> <p>Gofynnodd y Bwrdd am gyllideb cyfalaf ar gyfer 2021/22 ochr yn ochr â'r gyllideb refeniw a rhagfynegiadau. Nodwyd bod y gyllideb gyfalaf tymor hir wedi'i datblygu ar gyfer Campws 2025.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> CYMERADWYO'R gyllideb ar gyfer Grŵp y Brifysgol 2019/20.</p>	
<b>18.108</b>	<b>Rhagolygon Ariannol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Rhagolygon ariannol 2020/21 i 2022/23.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y rhagolygon a thynnodd sylw at y tybiaethau cynllunio, yn cynnwys nifer sefydlog y myfyrwyr newydd ar draws y rhagolygon y cyflwynodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gais amdanynt i'r holl Brifysgolion yng Nghymru.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> CYMERADWYO'R rhagolygon ariannol i'w cyflwyno i CCAUC.</p>	
<b>18.109</b>	<b>Adolygiad Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA)</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad Adolygiad Gwella Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd, adroddiad technegol a chynllun gweithredu.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Cyflwynodd y Dirprwy Is-ganghellor yr adroddiad a thynnodd sylw bod y Brifysgol wedi derbyn dau glod ac un cadarnhad, a oedd yn adlewyrchu maes gwaith da a ddechreuwyd, ac un argymhelliad. Roedd y cynllun gweithredu gofynnol wedi'i gyflwyno i'r Asiantaeth er gwybodaeth, er nad ydynt yn cymeradwyo'r cynllun.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn dymuno cofnodi ei ddiolchiadau i'r Ddirprwy Is-ganghellor a'r staff ehangach am y gwelliannau systemataidd a wnaed i wella ansawdd a phrofiad myfyrwyr ers yr adolygiad canol cylch.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiadau a chadarnhau'r cynllun gweithredu.</p>	
<b>18.110</b>	<b>Diweddariad ynghylch Cynllun Ffioedd a Mynediad 20/21</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> (i) Diweddariad ar y cynnydd o ran datblygu Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21 a gymeradwywyd yn wreiddiol gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019. (ii) Y broses werthuso a monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Tynnodd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr sylw at elfennau'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yr oedd y Brifysgol wedi bod yn eu trafod gyda CCAUC, ac amlinellodd natur y newidiadau a wnaed mewn ymateb i'w hadborth. Yn gryno, roedd y diwygiadau'n ymwneud â'r naratif i ddangos bod y Cynllun Ffioedd a Mynediad wedi'i ddatblygu gan gyfeirio at werthusiad critigol o</p>	

	<p>Gynlluniau Ffioedd a Mynediad y blynyddoedd blaenorol, eglurder ynghylch ffioedd ar gyfer partneriaid, mwy o ddata am dargedau cyfranogiad isel i ystyried Mesurau Cenedlaethol CCAUC, egluro'r lefelau buddsoddiad yn erbyn amcanion y Brifysgol, adolygu'r targedau'n ymwneud ag ehangu mynediad, cyfranogiad a chadw myfyrwyr, eglurder ynghylch rôl y Bwrdd yn monitro cydymffurfio gyda'r gofynion cyffredinol, lefel ffioedd a pherfformiad yn erbyn amcanion, ac ychwanegu targedau'n cyfeirio at Fesurau Cenedlaethol CCAUC.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI cynnydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21 a CHADARNHAU natur y diwygiadau a wnaed mewn ymateb i adolygiad ac adborth CCAUC.</p> <p>CYTUNO dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd, neu'r Is-gadeirydd yn ei habsenoldeb, i gadarnhau bod natur y diwygiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y ddogfen derfynol a CHYMERADWYO'R Cynllun Ffioedd a Mynediad 2020/21 terfynol i'w ailgyflwyno i CCAUC.</p> <p>CYMERADWYO mirienio arfaethedig y Fframwaith llywodraethu, monitro a gwerthuso'r Cynllun Ffioedd a Mynediad.</p>	
<b>18.111</b>	<b>Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Canlyniad Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol 2019.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Dosbarthwyd y canlyniadau dechreuol i'r Bwrdd ar 3 Gorffennaf yn dilyn eu cyhoeddi. Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd yn cynnwys dadansoddiad manylach y cwestiynau allweddol wedi'u meincodi yn erbyn y sector yn ei gyfanrwydd, Cymru a'r chwarter uchaf yn y Deyrnas Unedig. Nodwyd, tra bod y boddhad cyffredinol wedi gostwng 1% o'i gymharu gyda 2018, roedd nifer o raglenni a oedd wedi cyflawni lefel boddhad cyffredinol dros 90%, a 100% mewn rhai achosion.</p> <p>Byddai rhagor o ddadansoddi'n cael ei wneud ar draws meysydd rhaglenni a rhannu'r canlyniadau gyda'r cyfadrannau i hysbysu gweithredoedd gwella. Byddai adroddiad arall manylach yn cael ei ddarparu yn yr hydref.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	<b>CT</b>
<b>18.112</b>	<b>Tablau Cynghrair Prifysgolion</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad ar safle'r Brifysgol mewn tablau cynghrair allweddol.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Tynnwyd sylw at safleoedd y Brifysgol yn y Complete University Guide a'r Guardian University Guide yn ogystal ag yn y WhatUni Student Choice Awards.</p> <p>Byddai gweithgor newydd yn adolygu dull y Brifysgol o ymdrin â data tablau cynghrair.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>18.113</b>	<b>Adroddiad y Cadeirydd</b>	
	<b>Adroddwyd:</b>	

	<p>Adroddodd y Cadeirydd ei bod yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Academaidd ym mis Mehefin fel arsylwr, a bod hynny wedi bod yn fuddiol.</p> <p>Hysbysodd Mrs Owen y Bwrdd ei bod hi a Mr McGrady wedi arsylwi digwyddiad dilysu ar 31 Mai 2019 a bod gwrandio ar fyfyrwyr yn sgwrsio am eu rhaglen astudio wedi eu goleuo.</p> <p>Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau bod agoriad Parc y Glowyr wedi'i drefnu ar gyfer dydd Sul, 22 Medi.</p> <p>Hefyd cynghorwyd yr aelodau bod Mr Sprake wedi gwahodd Llywodraethwyr i wrando ar ei ddarlith ysgol haf MSc ar newid yn yr hinsawdd ddydd Llun, 12 Awst.</p> <p>Byddai'r Diwrnod Datblygiad Llywodraethwyr yn debygol o gael ei gynnal yn Ebrill 2020, fel y byddai'r diwrnod Gwella Llywodraethu Addysg Uwch yng Nghymru, a drefnwyd ar gyfer 23 Ebrill. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei anfon maes o law.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>18.114</b>	<b>Y Bwrdd Academaidd</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <p>(i) Adroddiad am gyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2019. (ii) Adroddiad ar Gyrrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol a'r gofrestr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol cysylltiedig.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad a'r Gofrestr Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol.</p>	
<b>18.115</b>	<b>Risgiau Strategol Corfforaethol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p> <p>(i) Crynodeb o risgiau strategol corfforaethol y Brifysgol. (ii) Map gwres risgiau.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>18.116</b>	<b>Cylchlythyrau ac ymgynghoriadau</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Crynodeb tri cylchlythyr CCAUC a gyhoeddwyd ers y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mai 2019.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI'R adroddiad.</p>	
<b>18.117</b>	<b>Defnyddio Sêl y Brifysgol</b>	
	<p><b>Derbyniwyd:</b> Adroddiad ar ddefnyddio sêl y Brifysgol ers Mai 2019.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI y defnyddiwyd y Sêl ar ddau achlysur ers Mai 2019 fel y nodwyd yn yr adroddiad.</p>	
<b>18.118</b>	<b>Pwyllgorau'r Bwrdd</b>	
	<b>18.118.01 Y Pwyllgor Archwilio</b>	

	<p><b>Derbyniwyd:</b>  (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2019.  (ii) Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b>  NODI bod cofnodion 14 Mehefin 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y Pwyllgor.</p> <p>NODI Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.</p> <p>CYMERADWYO penodi KPMG fel archwilyr allanol y Brifysgol am dair blynedd o 1 Awst 2019, gyda'r opsiwn am ddwy flynedd ychwanegol, yn ddarostyngedig i berfformiad blynyddol boddhaol.</p>	
<b>18.118.02 Y Pwyllgor Adnoddau Dynol</b>		
	<p><b>Derbyniwyd:</b>  (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019.  (iii) Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b>  NODI bod cofnodion 27 Mehefin 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI'R adroddiad.</p> <p>NODI Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.</p> <p>CYMERADWYO dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Bwrdd, neu'r Is-gadeirydd yn ei absenoldeb, i gymeradwyo'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ar sail argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau Dynol.</p>	
<b>18.118.03 Y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu</b>		
	<p><b>Derbyniwyd:</b>  (i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019.  (iv) Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.  (ii) Datganiad Prif Gyfrifoldebau.  (iii) Rheolau Sefydlog y Brifysgol.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b>  NODI bod cofnodion 27 Mehefin 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y cyfarfod.</p> <p>NODI Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.</p> <p>CADARNHAU'R Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr.</p> <p>CYMERADWYO'R rheol cworwm wedi'i ddiweddarau yng nghylch gwaith y Pwyllgor.</p> <p>CYMERADWYO'R Datganiad Prif Gyfrifoldebau diwygiedig.</p> <p>CYMERADWYO'R diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog.</p>	
<b>18.118.04 Y Pwyllgor Strategaeth a Chyllid</b>		
	<p><b>Derbyniwyd:</b></p>	

	<p>(i) Adroddiad y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2019.</p> <p>(ii) Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.</p> <p>(iii) Argymhelliad ar gyfer sefydlu is-gwmni newydd – Glyndŵr Services Ltd.</p> <p><b>Adroddwyd:</b> Tynnodd Gadeirydd y Pwyllgor sylw at gais y Pwyllgor am wybodaeth fanylach ynghylch perfformiad yr is-gwmnïau a gyflwynir yn yr hydref fel rhan o'r adroddiadau rheolaeth ariannol i'r Pwyllgor a'r Bwrdd.</p> <p><b>Penderfynwyd:</b> NODI bod cofnodion 28 Mehefin 2019 wedi'u dosbarthu cyn papurau'r Bwrdd.</p> <p>NODI adroddiad y cyfarfod.</p> <p>NODI Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor a chynllun gwaith 2019/20.</p> <p>CYMERADWYO sefydlu is-gwmni newydd – Glyndŵr Services Ltd.</p>	
<b>18.119</b>	<b>Aelodaeth y Bwrdd</b>	
	<p>Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd fod Mr Barrie Jones wedi'i hysbysu ei fod yn ymddiswyddo o'r Bwrdd, oherwydd ei ymrwymïadau gwaith. Cofnododd yr aelodau eu diolch i Mr Jones am ei gyfraniad i waith y Bwrdd.</p>	



CONFIDENTIAL